Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM
Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: CA581
Ein cyf/Our ref:FM/05339/11

David Melding AC
Cadeirydd – Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

25 Gorffennaf 2011

Annwyl David,

**CA581 – Gorchymyn Gwastraff (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2011**

Ysgrifennaf atoch mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 4 Gorffennaf yn tynnu fy sylw at adroddiad y Pwyllgor ar Offerynnau Statudol a ystyriodd Reoliadau Gwastraff (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2011 ar 22 Mehefin 2011. Cyfeiriodd eich llythyr yn ogystal at sefyllfaoedd lle y gall Gweinidogion Cymru arfer disgresiwn dros y dewis o weithdrefn sy'n berthnasol i ddarn o is-ddeddfwriaeth, a'r angen i gynnwys esboniad yn y Memorandwm Esboniadol.

Nodaf fod y Pwyllgor wedi adrodd o dan Reol Sefydlog 21.3 (ii) ar sail y ffaith ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu'n codi materion ym maes polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad. Nid oes gennyf unrhyw sylwadau pellach i'w gwneud ynghylch ymateb y Llywodraeth a gynhwysir yn adroddiad y Pwyllgor.

Mewn perthynas â'ch cais ynghylch cynnwys Memoranda Esboniadol yn y dyfodol, os yw'r ddeddfwriaeth alluogi yn rhoi disgresiwn i Weinidogion Cymru ynghylch y weithdrefn i'w defnyddio, cytunaf y dylai'r Memorandwm Esboniadol gynnwys esboniad ynghylch y modd y mae'r disgresiwn hwnnw wedi'i arfer. Yn wir, byddwch wedi nodi bod y Memorandwm Esboniadol a luniwyd i gyd-fynd â'r Gorchymyn Gwastraff (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) yn darparu esboniad o'r fath o dan 'cefndir deddfwriaethol'. Byddaf yn sicrhau bod y canllawiau i swyddogion yn cael eu diwygio fel bod unrhyw esboniad o'r fath yn y dyfodol

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8198
ps.firstminister@wales.gsi.gov.uk

yn cael ei gynnwys yn yr adran o'r enw 'Materion sydd o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol'.

Yn gywir,

**CARWYN JONES**